TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

VTCT Diploma mewn Therapi Harddwch Lefel 3

Yn gryno

Mae Therapi Harddwch Lefel 3 ar gyfer dysgwyr Lefel 2 sy'n symud ymlaen i'w rhaglen Therapi Harddwch Lefel 3, neu ar gyfer therapyddion sydd eisoes wedi cymhwyso ar Lefel 2, ond heb gwblhau eu cymhwyster Lefel 3 fel rhan o'u hyfforddiant a'u cynnydd ym maes harddwch.

Mae hefyd wedi'i ddylunio ar gyfer therapyddion harddwch sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant harddwch a fyddai'n hoffi uwchsgilio i'n cwricwlwm newydd i gynnig gwasanaethau cyfoes newydd o ran triniaethau yn y gweithle.

Fel rhan o ofynion y cwrs, mae lleoliad gwaith undydd mewn salon neu sba o'ch dewis yn hanfodol er mwyn ennill hyder a phrofiad yn eich triniaethau therapi harddwch. Bydd hyn yn gwella eich sgiliau cyflogadwyedd ac yn rhoi profiad o'r diwydiant i chi.

Mae'r cwrs hwn wedi'i deilwra ar gyfer y rheini a hoffai symud ymlaen ac arbenigo mewn gofynion spa a Llongau Mordeithio, yn ogystal â salonau harddwch sy'n cynnig triniaethau newydd a chyfoes. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Steiner a sbaon a salonau lleol yn ein hardal leol, lle gallwn gynnig profiad gwaith sy'n rhoi cipolwg ar ragolygon gyrfa i'r dyfodol.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dyma'r cwrs i chi os...

Rydych chi eisiau symud ymlaen i Therapi Harddwch Lefel 3 , neu os ydych chi wedi gweithio yn y diwydiant ers llawer blynyddoedd ac eisiau gwella ymhellach eich ystod o driniaethau therapi harddwch a gynigir yn eich gweithle.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Yn ystod eich cwrs, byddwch yn cynnal:

Cwyro personol
Triniaeth drydanol yr wyneb
Tylino corff dull Sweden
Therapi cerrig
Dermablaenio Lefel 4 unwaith y bydd holl agweddau Lefel 3 y cwrs wedi'u cwblhau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Disgwylir i chi fynychu pob sesiwn, gweithio'n galed a chynnal asesiadau ymarferol ar gleient sy'n talu gan fod y salon yn sefydliad salon hyfforddi realistig. Bydd gofyn i chi wneud rhai oriau o leoliad gwaith fel rhan o'ch astudiaethau cwrs sy'n cyd-fynd â'ch cydbwysedd bywyd a gwaith.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cwblhau eich rhaglen Lefel 3, mae opsiwn i symud ymlaen i raglen Lefel 4, lle mae posibilrwydd i agor eich busnes eich hun, gwneud cais i weithio ar longau mordeithiau neu chwilio am waith arall yn y sector. Mae gan y coleg lawer o gysylltiadau y gallwn eich cyfeirio atynt ar ôl cwblhau'r cwrs.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd disgwyl i chi weithio ar gleientiaid sy'n talu, a dod â'ch cleient eich hun, lle bo angen, i gwblhau asesiadau ymarferol.

Fodd bynnag, os oes apwyntiadau allanol wedi'u trefnu, rhaid i'r cleientiaid hyn gael blaenoriaeth bob amser.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cod gwisg:

Gwisg y mae'n rhaid ei gwisgo ar gyfer pob sesiwn ymarferol. Mae hwn yn ofyniad gorfodol
Rhaid clymu'r gwallt yn daclus yn ôl oddi ar yr wyneb
Colur dydd
Dim tyllau
Ni ellir gwisgo gemwaith heblaw modrwy briodas yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r cit priodol, gan ein cyflenwr cymeradwy, sy'n costio tua £198 yn amodol ar adolygiad/cynnydd mewn prisiau oherwydd chwyddiant.

Er mwyn adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent a fydd yn cael ei archebu gan ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion am sut i archebu eich gwisg, ynghyd ag opsiynau talu cyflenwyr, gan Bennaeth eich Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Mae'r pris ar gyfer 2024/2025 yn oddeutu £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau oherwydd chwyddiant.

Gallai costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu ac mae'n bosibl y byddant yn newid.